Rhif: WG28517

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar rifau adnabod daliadau a symudiadau da

Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-6382-0

1.0 Gwybodaeth gefndir

Mae'r rhif CPH yn sail i nifer o systemau rheoli gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i adnabod daliadau ffermio. Ei brif bwrpas yw dangos ble mae da byw a'u dilyn, yn unol â'r Rheoliadau Ewropeaidd ar gyfer gwartheg, defaid a geifr a moch. Trwy'r rhif CPH, mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi symudiadau anifeiliaid yn rhoi inni system sy'n gallu dilyn da byw trwy bob cam o'r gadwyn gyflenwi.

2.0 Y broses ymgynghori

Cytunodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion i newid y rheolau ar gyfer rhoi a rheoli rhifau CPH (Sir, Plwyf, Daliad). Cafodd y cynigion hyn eu datblygu gyda chymorth rhanddeiliaid mewnol a chynrychiolwyr allanol y diwydiant trwy'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG).

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

3.0 Cynigion a chwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae'r cynigion i newid y rheolau CPH yn ymwneud â'r canlynol:

- Gwahaniaethu rhwng tir/adeiladau (ar gyfer pob rhywogaeth) o fewn radiws o 10 milltir, fel hed y frân, o'r prif leoliad cynhyrchu (PPL).
- Cyfle i geidwaid sydd ar hyn o bryd yn cadw dau CPH parhaol o fewn 10 milltir i uno daliadau.
- Pan gymerir tir tymor byr/dros dro (e.e. tac haf neu aeaf) sydd 10 milltir neu lai o ddaliad y ceidwad, cynnig y dylai'r ceidwad gael cysylltu'r parseli tir hyn â'i CPH parhaol, cyn belled â bod y ceidwad yn bodloni amodau penodol
- Y graddau y câi CPH ei rannu os gwelir nad yw'r rhannau gwasgarog yn cydymffurfio â'r rheol 10 milltir
- Bod ceidwaid sydd wedi dewis peidio â chysylltu tir ar rent tymor byr â'u CPH parhaol, neu sydd ddim yn cael gwneud hynny (oherwydd pellter), yn cael gofyn am CPH dros dro
- Bod ceidwaid yn cael uno'r tir comin fel rhan o'r daliad os ydy'r prif ddaliad yn ffinio â'r tir comin
- Bod cysylltiadau CTS a SOAs yn cael eu diddymu fesul "achos cyfan".

4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daeth 12 o ymatebion i law'r Llywodraeth, oddi wrth amrywiaeth o sefydliadau, cymdeithasau ac unigolion. Rydym wedi'u rhestru yn Atodiad A.
Gofynnodd un o'r ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi ei fanylion personol.
Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori.

5.0 Yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

5.1 Cynnal terfyn pellter o 10 milltir o radiws, i'w fesur o ffin allanol y prif leoliad cynhyrchu

Dywedodd 11 o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno. Roedd 1 yn anghytuno.

Dywedodd Rhaglen Arweinwyr Gwledig yr Academi Amaethyddol 2014 (yr Academi Amaethyddol) fod y cynnig yn un positif am ei fod yn symleiddio'r rheolau symud da byw i geidwaid da byw. Mantais ychwanegol y cynnig yw ei fod yn cryfhau'r mesurau ar gyfer rheoli clefydau.

Cytunodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) fod 'y cynigion newydd ar gyfer ceidwaid, y diwydiant a Llywodraeth Cymru yn symlach ac yn fwy effeithiol ac effeithlon ac yn gwneud Cymru'n fwy abl i ddelio ag achos o glefyd. Rydym yn cefnogi yn arbennig y cynnig i wahaniaethu rhwng tir/adeiladau sydd hyd at a chan gynnwys radiws o 10 milltir o brif leoliad cynhyrchu, hynny ar ôl clywed barn cynghorwyr milfeddygol Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac aelodau'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG).

'Rydym yn cytuno bod y cynnig 10 milltir yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen i ffermwyr allu bwrw ymlaen â'u busnes a'r angen am fesurau rheoli effeithiol. Fodd bynnag, mae angen esboniad ynghylch beth fyddai'n digwydd â pharsel o dir sy'n gyfan gwbl y tu allan i'r radiws o 10 milltir ond sy'n ffinio â pharsel o dir sy'n rhychwantu'r ffin, a lle na fyddai angen mwy na gât agored i allu symud stoc. Dylid paratoi canllawiau clir ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath'.
Dywedodd Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA) ei bod hi'n 'hen bryd ailwampio'r rhaglen CPH. O edrych tua'r dyfodol, mae'r cynigion hyn i'w gweld yn cynnig cydbwysedd synhwyrol i bawb'.

Roedd Rhanbarth Cymru Cymdeithas Genedlaethol y Defaid (NSA) yn cytuno â'r cynnig hwn ac yn croesawu'r eglurder ynghylch defnyddio'r ffin allanol i fesur y pellter o 10 milltir.

Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) eu bod hwythau hefyd yn cytuno trwy ddweud 'Roedd mwyafrif yr aelodau'n cytuno â'r egwyddor bras o sefydlu rheol 10 milltir a chaniatáu tir o fewn y pellter hwnnw o ffin Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) i fod yn rhan o un CPH dros gyfnod dros dro priodol'.

Dywedodd un ymatebydd, Fferm Ymddiriedolaeth Cwm Elan, nad oeddynt yn teimlo y byddai'r rheol 10 milltir yn help ac 'er ei bod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf bod manteision mawr o leihau'r fiwrocratiaeth trwy symleiddio'r system, byddai'n esgor ar drafferthion arwyddocaol ac ymarferol'.

Mynegodd LAA Cymru eu pryder ynghylch y rheol 10 milltir. 'Gallai fod problem pe bai uned magu treisiedi (heffrod) sy'n cyflenwi treisiedi godro i'r brif fuches odro sydd fwy na 10 milltir o'r uned yn methu prawf TB cyn symud. Byddai hynny'n ben tost anferth ac yn broblem lles i'r perchennog'.

5.2 Cyflwyno cyfle i geidwaid sydd ar hyn o bryd yn cadw dau CPH parhaol o fewn 10 milltir i uno daliadau.
Cyfeiriodd wyth ymatebydd yn benodol at uno daliadau, gan gytuno â'r cynnig. Dywedodd yr NSA eu bod yn cytuno â'r opsiwn o allu uno CPHs parhaol i greu CPH newydd. Roeddynt yn cytuno y dylai fod yn ddewisol ac nid yn orfodol.

Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV) 'Mae'r cynnig i uno daliadau tir o fewn radiws o 10 milltir sydd o dan yr un rheolaeth hefyd yn ymddangos yn synhwyrol, cyn belled â bod ffermwr yn cael dewis a yw am wneud hynny. Rhaid peidio â'i orfodi i uno CPHs. Bydd yn symleiddio pethau i ffermwyr ond hefyd yn cadw rheolaeth effeithiol ar glefydau.'

5.3 Cysylltu Tir – pan gymerir tir tymor byr/dros dro (e.e. tac haf neu aeaf) sydd 10 milltir neu lai o ddaliad y ceidwad, cynigir y dylai fod yn bosib i'r ceidwad gysylltu'r parseli tir hyn â'i CPH parhaol, cyn belled â bod y ceidwad yn bodloni amodau penodol.

Cafwyd sylwadau ar hyn gan wyth ymatebydd ac roeddynt i gyd yn cytuno â'r cynnig.

Yn fras, roedd Cymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain (BCVA) yn teimlo bod y cynnig hwn yn un 'synhwyrol iawn'. Roedd yr NSA o'r un farn, gan ddweud bod y cynigion ar gyfer cysylltu tir dros dro o fewn pellter o 10 milltir yn gam doeth, fel opsiwn i ffermwyr.

Dywedodd CAAV ei bod 'Ymddengys y gallai fod yn ddefnyddiol iawn rhoi'r dewis i ffermwyr da byw gysylltu tir sy'n cael eu meddiannu ganddynt am 364 diwrnod neu lai â'u prif CPH os yw'r tir hwnnw o fewn y radiws o 10 milltir'.

Dywedodd aelodau'r FUW y byddai'n haws i'r diwydiant ddeall pe defnyddid y gair 'link' yn Saesneg, yn ôl profiad y gorffennol.

5.4 Rhannu CPH - y graddau y gallai CPH gael ei rannu os gwelir nad yw'r lleoliadau gwasgarog yn cydymffurfio â'r rheol 10 milltir

Cafwyd cyfanswm o saith ymateb i'r cynnig hwn, bob un yn ei gefnogi'n gyfan heblaw un o'r gofynion sy'n gysylltiedig â chofnodi symudiadau defaid.

Dywedodd yr NSA 'Rydym yn derbyn y bydd angen rhifau daliadau ar wahân ar ffermydd â darnau gwasgarog o dir y tu allan i'r radiws o 10 milltir, ac y byddai'n rhaid cofnodi a hysbysu pob symudiad rhwng y daliadau hyn, a chadw at waharddiadau symud. Rydym yn credu bod y risg yn fwy os ydy'r stoc yn dod o bellach i ffwrdd, a gallwn ragweld y bydd llawer o fusnesau fferm yn cael eu gorfodi i gael CPHs ar wahân er eu bod prin y tu allan i'r radiws 10 milltir. O'r herwydd, rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rheolau a'r amodau ar gyfer unedau cwarantin yn y dyfodol yn ymarferol a heb fod yn llym.

Roedd yr Academi Amaethyddol, CLA, NFU Cymru a'r FUW i gyd yn anghytuno â'r gofynion ychwanegol ynghylch rhoi gwybod am symudiadau defaid. Dywedodd yr Academi eu bod 'yn cytuno â rhannu CPH ond pam mae angen cofnodi pob dafad pan nad yw'r perchennog yn newid'.

Yn yr un modd, mynegodd y CLA bryder a godwyd gan eu haelodau ynghylch peidio â chael symud defaid fesul 'batsh'. 'Ni ddylid gwneud yn fach o'r gwaith ychwanegol a ddaw o orfod cofnodi pob dafad unigol a chyflwyno manylion rhifau tag clust EID llawn pob dafad sy'n cael ei symud, heb newid perchennog, er enghraifft i gaeau Tac dros y gaeaf'

Dywedodd NFU Cymru, ‘mae’n bwysig bod ffermwyr defaid yn dal yn cael cofnodi symudiadau defaid fesul batsh os nad yw’r perchennog yn newid e.e. i gaeau tac neu adref. Nid yw NFU Cymru yn cytuno â pharagraff 5..4 pwynt bwled 4 y ddogfen ymgynghori. Nid ydym yn credu bod rheswm iechyd yn cyfiawnhau peidio â chaniatáu cofnodi defaid fesul batsh cyn belled nad yw’r perchennog yn newid. Nid yw NFU Cymru’n gweld perthnasedd na’r cyfiawnhad dros y newid hwn. Bydd yn ychwanegu llawer o amser a strach i ffermwyr defaid sy’n mynd â’u defaid i dir y tu hwnt i’r radiws 10 milltir o’u prif ddaliad neu yn ôl adre o’r caeau tac. Gyda’r drefn bresennol, mae’r symudiad yn dal i gael ei gofnodi ac mae EID Cymru yn cael gwybod amdano, sy’n golygu y byddai’n bosib olrhain y batsh yn rhwydd pe bai achos o glefyd hysbysadwy, sef y cyfan y mae APHA yn gofyn amdano’.

Roedd aelodau’r FUW ‘yn gwrthwynebu’r cynnydd sylweddol yn y gwaith, y costau gweinyddol, a’r risg uwch o gosbau pe bai’n rhaid cofnodi symudiad pob dafad unigol’. At hynny, credir bod y dadleuon economaidd ac epidemiolegol o blaid caniatáu llacio’r rheol mor ddilys dros y blynyddoedd i ddod ag yr oeddynt pan gafodd yr eithriad ei gyflwyno. Hefyd, byddai peidio â chael llacio’r rheol yn mynd yn groes i egwyddorion Hwyluso’r Drefn ac amcan Llywodraeth Cymru o leihau beichiau gweinyddol y diwydiant’.

5.5 Rhifau CPH dros dro (tCPH)- bod ceidwaid sydd wedi dewis peidio â chysylltu tir ar rent tymor byr â’u CPH parhaol, neu sydd ddim yn cael gwneud hynny (oherwydd pellter), yn cael gofyn am CPH dros dro
Ni wnaeth pob un o’r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn er i’r rheini a wnaeth gytuno â’r cynnig. Gwerthfawrogwyd y cyfle i wneud cais am CPH dros dro oherwydd ei hyblygrwydd.

I grynhoi, dywedodd y CAAV, ‘Rydym yn croesawu defnyddio CPHs dros dro ar gyfer tir sy’n cael ei feddiannu am gyfnod byr y tu allan i’r radiws o 10 milltir a hefyd, pan fydd ceidwad yn penderfynu y byddai’n well ganddo CPH dros dro. Mae’r hyblygrwydd hwn yn ddefnyddiol. Bydd problemau serch hynny i geidwaid o’r fath o beidio â chysylltu tir gan y byddai’n rhaid iddynt roi gwybod i EID Cymru am bob symudiad rhwng CPHs o dan y newidiadau a gynigir. Byddai hynny’n ychwanegu at y baich gweinyddol’.

Dywedodd y BCVA fod y cynigion yn ‘synhwyrol iawn’ a dywedodd yr NSA fod angen cadarnhad na ‘fydd gofyn i’w adnewyddu bob blwyddyn’.

5.6 Bod ceidwaid yn cael uno’r tir comin fel rhan o’r daliad os ydy’r prif ddaliad yn ffinio â’r tir comin.
Cafwyd sylwadau gan bum ymatebydd mewn cysylltiad â thir comin, ac roeddynt oll yn cytuno’n fras â’r cynnig.

Mae’r BVA ‘yn llwyr gefnogi’r cynnig bod ceidwaid, os yw’r prif leoliad cynhyrchu yn ffinio â thir comin, yn cael uno’r tir comin fel rhan o’u daliad’.

Mae’r BCVA a’r CAAV o’r farn bod y cynnig yn ddefnyddiol ond bod angen mwy o eglurder ynghylch yr angen am brofion TB a sut y byddai’n effeithio ar dir comin sydd â nifer o borwyr.

Dywedodd yr NSA eu bod yn ‘cytuno ag egwyddor uno tir comin a’r Prif Leoliad Cynhyrchu ond yn hytrach na’i wneud yr unig opsiwn pan fydd tir comin yn ffinio, ni welwn reswm pam na ellir delio â hyn yn unol â’r egwyddor 10 milltir’.

5.7 Trefniadau dros dro - cynnig bod cysylltiadau CTS a SOAs yn cael eu diddymu fesul "achos cyfan".

Cafwyd ymatebion gan saith ymatebydd yn benodol am y cynnig hwn. Roeddynt oll yn cefnogi'r cynnig.

Roedd NFU Cymru'n cefnogi'n gryf y prosesau 'bod cysylltiadau CTS a SOAs ond yn cael eu dileu ar ôl i'r cwsmer gael cyfle i resymoli'i ddaliad yn unol â'r rheolau CPH newydd'.

Roed yr NSA o'r un farn. Dywedodd y BVA gan nad yw ceidwaid yn cael ymgeisio am SOA ar hyn o bryd, mae angen i'r cyfnod pontio ddechrau cyn gynted â phosibl.

Roedd un ymatebydd (dienw) yn anghytuno â dileu cysylltiadau CTS. 'Mae newid y system gysylltiadau yn creu mwy o waith a chostau i ddiwydiant sydd eisoes mewn dirwasgiad. Mae'r system gysylltiadau'n gweithio'n dda inni, felly dydyn ni ddim am weld rhagor o newidiadau'.

Mynegodd LAA Cymru eu pryder 'Er ei fod yn dreth ar amser y tro cyntaf, yn y tymor hir bydd yn symleiddio symudiadau ac yn lleihau costau gweithredu. Byddai dileu SOAs a chysylltiadau CTS yn ergyd i gynhyrchwyr mawr â thir y tu hwnt i'r terfyn 10 milltir'.

6.0 Sylwadau cyffredinol

Gofynnodd yr Academi Amaethyddol am esboniad o'r rheolau i ffermydd ar ffin Cymru, gan ddweud 'os ydy'r prif ddaliad wedi'i gofrestru yng Nghymru, rhagdybir y bydd y rheol 10 milltir yn dal yn weithredol, hyd yn oed os yw'r tir dros y ffin. Heb hynny, byddai'n annheg i'r ffermwyr hynny.'

Roedd y CAAV am gael eglurder ynghylch 'pa dir sy'n cael ei ganiatáu er enghraifft ar rent /o dan denantiaeth/trwydded bori a "tir o dan reolaeth lwyr' neu "da byw o dan reolaeth lwyr".

Dywedodd yr FUW 'Mae angen yr un rheol ar gyfer gwartheg a defaid yn y dyfodol. Dywedodd aelodau bod angen sicrhau bod modd trechu problem y gofyn cyfreithiol i gadw llyfrau symudiadau, pasbortau gwartheg ac ati ar ddaliadau cofrestredig unigol. Gwell hynny na sefyllfa (er enghraifft ar ôl dileu cysylltiadau CTS) lle bo'n rhaid cadw nifer o lyfrau cofnodi symudiadau a bod yn rhaid cadw dogfennau ar bob daliad cofrestredig'.

Dywedodd NFU Cymru 'Dylid cysylltu proses trosglwyddo tir BPS â'r rhaglen CPH newydd hon. Byddem hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu'r broses hon ag elfen Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir Cynllun y Taliad Sylfaenol.

Atodiad A

Rhestr o Ymatebwyr

1. Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
2. Rhaglen Arweinwyr Gwledig yr Academi Amaethyddol 2014 (Yr Academi Amaeth)
3. NFU Cymru
4. Hybu Cig Cymru (HCC)
5. Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru (LAA)
6. Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA)
7. Cymdeithas Genedlaethol y Defaid Rhanbarth Cymru (NSA)
8. Cymdeithas y Tirfeddianwyr Gwledig (CLA)
9. Cymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain (BCVA)
10. Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV)
11. Dienw
12. Rheolwr yr Ystâd, Fferm Ymddiriedolaeth Cwm Elan